OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1163

# Gorchymyn y Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

## RHAN 1

## RHAGARWEINIOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "blwyddyn" ("*year*" ) yw blwyddyn ariannol daladwy ;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr "gallu cynhyrchu net a ddatgenir" ("*declared net capacity*"), mewn perthynas â pheiriannau cynhyrchu yw'r cynhyrchiad uchaf o drydan (wrth y terfynellau cynhyrchu) y gellir ei gynnal am gyfnod amhenodol, o dan yr amodau perthnasol, heb achosi niwed i'r peiriannau, gan dynnu o'r gallu cynhyrchu hwnnw yr hyn a ddefnyddir gan y peiriannau, ac a fynegir mewn megawatiau hyd at y ganfed ran agosaf o fegawat;

(At ddibenion y diffiniad hwn ar gyfer y peiriannau cynhyrchu hynny a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw drwy losgi olew neu lo, yr amodau perthnasol yw bod y dŵ r sy'n mynd i'r system oeri yn un deg naw gradd Celsius os caiff y dŵ r oeri ei gylchredeg ar yr hereditament i'w ailddefnyddio yn y system oeri, neu ym mhob achos arall deg gradd Celsius.

Ar gyfer peiriannau cynhyrchu a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw gwynt, mae cyflymder y gwynt yn ddigon i yrru'r peiriannau cynhyrchu ar eu cynhyrchiad uchaf o drydan.

Ar gyfer peiriannau cynhyrchu a'u hunig neu eu prif ffynhonnell ynni yw dŵ r, mae llif y dŵ r yn ddigon i yrru'r peiriannau cynhyrchu ar eu cynhyrchiad uchaf o drydan.

Ar gyfer pob math arall ar beiriannau cynhyrchu yr amodau perthnasol yw, bod tymheredd yr awyr yn lleoliad yr hereditament yn ddeg gradd Celsius ac mae gwasgedd yr aer yn 1013mbar); ac

ystyr "peiriannau cynhyrchu" ("*generating plant*"), mewn perthynas â hereditament, yw peiriannau yn yr hereditament neu arno a ddefnyddir neu sydd ar gael ar gyfer eu defnyddio i'r diben o gynhyrchu trydan.

**Talgrynnu Rhifau**

**3.** Pan (ar wahân i'r erthygl hon) fydd unrhyw werth ardrethol y penderfynir arno o dan y Gorchymyn hwn yn cynnwys ffracsiwn o bunt—

(a) rhaid talgrynnu'r ffracsiwn i un bunt os bydd yn fwy na 50c, a

(b) rhaid anwybyddu'r ffracsiwn os bydd yn 50c neu'n llai.

**Diddymiadau ac Eithriadau**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir drwy hyn y canlynol gydag effaith o 1 Ebrill 2000 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru:

(a) Gorchymyn Cynhyrchwyr Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) 1994(**1**);

(b) Gorchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) (Diwygio) 1995(**2**);

(c) erthygl 2 o Orchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan ac Ymgymerwyr Dŵ r (Gwerthoedd Ardrethol) (Diwygio) 1996(**3**) a'r gyfran honno o erthygl 1 sy'n cael effaith i ddibenion erthygl 2.

(2) Bydd y Gorchmynion a grybwyllir ym mharagraff 1 yn parhau i gael effaith ar 1 Ebrill 1995 neu wedyn at ddibenion y canlynol neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r canlynol—

(a) unrhyw newid i restr a luniwyd cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan reoliadau a wnaed o dan adran 58 o'r Ddeddf(**4**) (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ac ymlaen) ynglŷn â'r swm taladwy o ran hereditament am gyfnod perthnasol fel y'i diffinnir yn yr adran honno.

# RHAN II

## CYNHYRCHU TRYDAN

**Gwerth Ardrethol**

**5.**—(1) Mae erthygl 6 yn gymwys i ddosbarth ar hereditamentau y mae'r amodau ym mharagraff (2) wedi'u cyflawni yn eu cylch.

(2) Yr amodau a grybwyllir ym mharagraff (1) yw bod —

(a) yr hereditament yn cynnwys tir, peiriannau neu adeiladau a ddefnyddir at gynhyrchu trydan, neu sydd ar gael i gynhyrchu trydan a bod y defnydd hwnnw yn unig neu'n brif swyddogaeth yr hereditament a

(b) y peiriannau cynhyrchu naill ai —

(i) yn defnyddio pŵ er gwynt, llanw, neu ddŵ r fel eu prif ffynhonnell ynni; neu

(ii) a chanddynt allu cynhyrchu net a ddatgenir o 500 cilowat neu ragor.

(3) Wrth benderfynu ai cynhyrchu trydan yw prif swyddogaeth hereditament, rhaid peidio â chymryd sylw o hyn o wres a gynhyrchir yn yr hereditament neu arno ac a gynhyrchir at ddibenion nad ydynt yn ddibenion cynhyrchu trydan.

(**1**) O.S. 1994/3282 a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/962 ac O.S. 1996/912. Mae'r Gorchymyn hwn yn parhau effaith Gorchymyn Diwydiant Cyflenwi Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) 1989 (O.S. 1989/2474) a Gorchymyn Cynhyrchwyr Trydan (Gwerthoedd Ardrethol) 1989 (O.S. 1989/2475) mewn perthynas â rhestri ardrethu annomestig mewn grym cyn 1 Ebrill 1995.
(**2**) O.S. 1995/962.
(**3**) O.S. 1996/912 fel y'i ddiwygiwyd.
(**4**) Diwygiwyd adran 58 gan baragraff 68 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989 (p.14), adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p.3) ac adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p.29).

**6.**—(1) Yn achos hereditament sy'n dod o fewn y dosbarth a bennir yn erthygl 5, ni fydd paragraffau 2 i 2B o Atodlen 6 i'r Ddeddf(**5**) yn gymwys, a bydd ei werth ardrethol, yn ystod unrhyw flwyddyn, pan fydd effaith i'r rhestr berthnasol, yn swm cyfartal â'r swm cymwysadwy.

(2) Y "swm cymwysadwy" at ddibenion paragraff (1) yw'r swm fesul megawat o allu cynhyrchu net a ddatgenir o'r peiriannau cynhyrchu yn yr hereditament neu arno (wedi'i fynegi i'r ganfed ran agosaf o fegawat) wedi'i nodi yng ngholofn (2) o'r Tabl canlynol mewn perthynas â'r unig ffynhonnell ynni, neu'r brif ffynhonnell ynni, a ddefnyddir gan y peiriannau llywodraethu hynny a nodir yng ngholofn (1):

**TABL**

| **(1)**<br>**Unig neu brif ffynhonnell ynni** | **(2)**<br>**£ fesul megawat** |
|---|---|
| (i) Llosgi glo | 9,500 |
| (ii) Llosgi olew | 5,000 |
| (iii) Llosgi nwy naturiol pan ddefnyddir tyrbin ager | 9,500 |
| (iv) Llosgi nwy naturiol pan na ddefnyddir tyrbin ager | 5,000 |
| (v) Ymhollti Niwclear a gynhyrchir gan adweithydd Magnox | 6,000 |
| (vi) Ymhollti Niwclear na chynhyrchir gan adweithydd Magnox. | 14,000 |
| (vii) Pŵ er Gwynt | 2,000 |
| (viii) Llosgi nwy o safleoedd tirlenwi | 5,000 |
| (ix) Llosgi cnydau a gwasarn anifeiliaid | 2,000 |
| (x) Dwr wedi'i gronni a'i bwmpio | 12,800 |
| (xi) Trydan dŵ r | 9,500 |
| (xii) Unrhyw ffynhonnell o ynni nas rhestrir uchod. | 2,000 |

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "y rhestr berthnasol" yw'r rhestr ardrethu annomestig leol a luniwyd ar 1 Ebrill 2000.

# RHAN III

## CYNHYRCHU TRYDAN, TROSGLWYDDO A CHYFLENWI: RHESTRI CANOLOG

**Dehongli**

**7.**—(1) Yn y Rhan hon —

(**5**) Diwygiwyd baragraff 2 a mewnosodwyd paragraffau 2A a 2B gan baragraff 38(3) i (11) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

ystyr "blwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw unrhyw flwyddyn y mae gwerth ardrethol i'w phenderfynu yn unol â'r Gorchymyn hwn ac

ystyr "blwyddyn berthnasol flaenorol" ("*relevant preceding year*") yw'r flwyddyn sy'n rhagflaenu blwyddyn berthnasol;

ystyr "dosbarth ar hereditamentau" ("*class of hereditaments*") yw hyn o hereditamentau sydd i'w dangos ar y rhestr ardrethu ganolog i Gymru yn rhinwedd rheoliad 3(1) o'r Atodlen i Reoliadau'r Rhestr Ganolog a Rhan 2 ohoni ac a feddiennir gan unrhyw berson dynodedig a enwir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "ffactor ailgyfrifo" ("*recalculation factor*") mewn perthynas â dosbarth ar hereditamentau yw'r ffactor y penderfynir arno mewn perthynas â'r dosbarth hwnnw yn unol ag erthygl 9 neu 10, fel y bo'r achos;

ystyr "fformwla safonol" ("*standard formula*") mewn perthynas â dosbarth o hereditamentau yw'r fformwla

$$T \times U$$

lle —

T yw'r swm a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn mewn perthynas â'r dosbarth hwnnw; a

U yw'r ffactor ailgyfrifo cymwysadwy i'r dosbarth hwnnw mewn perthynas â'r flwyddyn berthnasol.

ystyr "person dynodedig" ("*designated person*") yw person a ddynodir gan reoliad 3(1) o Ran 2 o'r Atodlen i Reoliadau'r Rhestri Canolog ac a enwir ynddi;

ystyr "Rheoliadau'r Rhestr Ganolog" ("*Central List Regulations*") yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999(**6**); ac

ystyr "y rhestr ganolog" ("*the central list*") yw'r rhestr ardrethu annomestig ganolog i Gymru a luniwyd ar 1 Ebrill 2000.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at hereditamentau a feddiennir gan berson yn cynnwys cyfeiriad, yn achos hereditamentau nas meddiennir, at hereditamentau a berchnogir gan y person hwnnw, a dehonglir cyfeiriadau at feddiannu yn unol â hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon neu yn yr Atodlen at berson dynodedig wrth ei enw yn gyfeiriad at y cwmni sy'n dwyn yr enw hwnnw ar y dyddiad y cofnodwyd yr enw ar y rhestr ganolog.

## Gwerthoedd Ardrethol

**8.** Yn achos pob dosbarth ar hereditament, ni fydd paragraffau 2 i 2B o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn pan fydd y rhestr ganolog mewn grym ac

(a) yn y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 y swm a bennir ar ei gyfer yn yr Atodlen fydd y gwerth ardrethol; ac

(b) mewn unrhyw flwyddyn arall sy'n dechrau ar neu cyn 1 Ebrill 2004 y swm a geir drwy ddefnyddio'r fformwla safonol ar gyfer y dosbarth hwnnw fydd y gwerth ardrethol.

## Hereditamentau Trosglwyddo: Y Ffactor Ailgyfrifo

**9.** Ar gyfer pob dosbarth ar hereditament a restrir yn Rhan A o'r Atodlen, y ffigur a geir ar gyfer y dosbarth hwnnw drwy ddefnyddio'r fformwla ganlynol fydd y ffactor ailgyfrifo mewn perthynas â blwyddyn berthnasol –

(**6**) O.S. 1999/3453 (Cy.50).

$$T\left(\frac{k - K}{K}\right)$$

lle—

T yw'r swm a bennir ar gyfer y dosbarth hwnnw yn yr Atodlen;

k yw nifer amcangyfrifedig y cilometrau mewn cylched o brif linellau trosglwyddo a feddiannwyd gan y person dynodedig yn achos y dosbarth hwnnw ar 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol berthnasol; a

K yw nifer amcangyfrifedig y cilometrau mewn cylched o brif linellau trosglwyddo a feddiennir gan y person hwnnw ar 31 Mawrth 2000.

**Hereditamentau Dosbarthu: Y Ffactor Ailgyfrifo**

**10.** Ar gyfer pob dosbarth ar hereditament a restrir yn Rhan B o'r Atodlen, y ffigur a geir ar gyfer y dosbarth hwnnw drwy ddefnyddio'r fformwla ganlynol yw'r ffactor ailgyfrifo mewn perthynas â blwyddyn berthnasol —

$$T\left(\frac{v - V}{V}\right)$$

lle —

T yw'r swm a bennir ar gyfer y dosbarth hwnnw yn yr Atodlen;

v yw'r amcangyfrif o allu'r newidydd gosodedig i gynhyrchu (wedi'i fesur mewn cilofolt-amperau) o'r holl beiriannau newid trydan a feddiannwyd gan y person dynodedig yn achos y dosbarth hwnnw ar 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol berthnasol; a

V yw'r amcangyfrif o allu'r newidydd gosodedig i gynhyrchu (wedi'i fesur mewn cilofolt-amperau) o'r peiriannau hynny ar 31 Mawrth 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**);

*D. Elis Thomas*
30 Mawrth 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38.